

**Yma yn BookTrust, rydyn ni'n gweithio gyda theuluoedd, gan eu cynorthwyo i ddechrau rhannu storïau a llyfrau â'i gilydd o'r oedran cynharaf posibl.**

Rydym yn llwyddo i gael miliynau o blant yn darllen, yn enwedig rhai o deuluoedd incwm isel neu gefndiroedd bregus. Rydym yn dethol ein llyfrau'n ofalus ac mae ein rhaglenni'n seiliedig ar waith ymchwil trylwyr. Maen nhw'n cael eu cyflwyno gan filoedd o bartneriaid lleol, gan ddod â gwefr darllen i blant ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae'r adnodd rhyngweithiol hwn yn crynhoi'r dystiolaeth ar sut mae darllen o fudd i blant. Gallwch glicio drwodd i weld y prif ganfyddiadau neu wybodaeth fanylach.

# Manteision darllen



# Mae darllen yn cynorthwyo plant

I oresgyn  
anfantais



I ddatblygu gwell lles  
meddyliol, sgiliau  
cymdeithasol a  
pherthnasoedd cryf



I gyrraedd cerrig  
miltir lleferydd ac  
iaith a gwneud yn  
well yn yr ysgol



I ddatblygu  
dychymyg,  
empathi a  
chreadigrwydd



# Mae darllen yn cynorthwyo plant

I oresgyn  
anfantais



Byddan nhw'n profi gwell symudedd addysgol  
a symudedd cymdeithasol



Mae'r rhai sy'n cael eu magu mewn tlodi yn  
llai tebygol o aros mewn tlodi fel oedolion



Drwy gydol yr ysgol, maen nhw'n fwy tebygol  
o oresgyn y rhwystrau sy'n cael eu hachosi  
gan anfantais



**Tystiolaeth o  
astudiaethau dethol  
ar y pwnc hwn**

**Darllen Mwy** 




## Mae darllen yn cynorthwyo plant i oresgyn anfantaais

### Byddan nhw'n profi gwell symudedd addysgol a symudedd cymdeithasol

- Mae gan ddarllen er pleser y pŵer i helpu i liniaru anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol<sup>1</sup> fel incwm teuluol isel a chefnidir addysgol.

### Mae'r rhai sy'n cael eu magu mewn tlodi yn llai tebygol o aros mewn tlodi fel oedolion.

- Mae gan blentyn sy'n tyfu i fyny mewn tlodi ac sydd â rhywun yn darllen iddyn nhw yn bump oed obaith sylweddol uwch o lwyddiant economaidd yn eu 30au na'u cyfoedion sydd heb rywun yn darllen iddyn nhw.<sup>2</sup>



## Mae darllen yn cynorthwyo plant i oresgyn anfantais

### Drwy gydol yr ysgol, maen nhw'n fwy tebygol o oresgyn y rhwystrau sy'n cael eu hachosi gan anfantais

- Mae darllen ar y cyd yn cael effaith unigryw a thrawsnewidiol ar gyrhaeddiad ysgol.<sup>3</sup> Mae darllen ar y cyd gartref yn cael mwy o ddylanwad ar berfformiad academaidd plant na goruchwyliaeth rhieni, rheoli gwaith cartref neu bresenoldeb yng ngweithgareddau'r ysgol.<sup>4</sup>
- Mae plant dan anfantais sy'n cyflawni ar lefel uchel ar ddiwedd yr ysgol gynradd ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi bod â rhywun yn darllen iddyn nhw gartref yn eu blynyddoedd cynnar o gymharu â'u cyfoedion.<sup>5</sup>

- Mae plentyn sy'n ddarllenwr brwd yn rhoi cyfleoedd dysgu hunan-gynhyrchiol i'w hun sy'n gyfwerth â sawl blwyddyn o addysg.<sup>6</sup>
- Mae effaith darllen er pleser bedair gwaith yn fwy pwerus o ran cynnydd mewn geirfa, mathemateg a sillafu yn 16 oed, nag addysg rhieni neu statws economaidd-gymdeithasol rhieni.<sup>7</sup>
- Mae plant difreintiedig 11–14 oed sy'n darllen yn eu hamser eu hunain ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi gartref yn fwy tebygol o gyflawni tri chymhwyster Safon Uwch neu fwy, o gymharu â'r rhai nad ydyn nhw'n ymwneud â'r gweithgareddau hyn.<sup>8</sup>



# Mae darllen yn cynorthwyo plant

I ddatblygu gwell lles meddyliol, sgiliau cymdeithasol a pherthnasoedd cryf



Maen nhw'n teimlo'n fwy diogel ac yn datblygu cysylltiadau dwfn â rhieni a gofalwyr



Mae ganddyn nhw drefn ac arferion iach



Mae ganddyn nhw sgiliau cymdeithasol-emosiynol gwell



Mae ganddyn nhw well lles meddyliol a hunan-barch

**Tystiolaeth o astudiaethau dethol ar y pwnc hwn**

**Darllen Mwy** 



## Mae darllen yn cynorthwyo plant i ddatblygu gwell lles meddyliol, sgiliau cymdeithasol a pherthnasoedd cryf

### Maen nhw'n teimlo'n fwy diogel ac yn datblygu cysylltiadau dwfn â rhieni a gofalwyr

- ✦ Fel gweithgaredd bondio, mae darllen ar y cyd yn eu blynyddoedd cynnar yn helpu plentyn i ddatblygu ymlyniad (pa mor ddiogel ac ymddiriedus y maen nhw'n teimlo yng nghwmni eu rhiant neu ofalwr). Mae ymlyniad yn hanfodol i hapusrwydd plentyn yn y dyfodol, eu cymhwysedd cymdeithasol, a'u gallu i ffurfio cysylltiadau ystyrlon.<sup>9</sup> Mae'r ffaith bod eu rhiant neu ofalwr ar gael<sup>10</sup> wrth ddarllen ar y cyd yn cyfrannu at ymdeimlad plentyn o ddiogelwch.<sup>11</sup>
- ✦ Mae darllen ar y cyd yn creu cyfleoedd ar gyfer sylw ar y cyd ac agosatrwydd emosiynol rhwng plentyn a'u rhiant neu ofalwr. Mae darllen ar y cyd yn cynyddu cynhesrwydd rhieni ac yn lleihau straen ar rieni<sup>12</sup>, gan eu galluogi i gynnig y rhyngweithio sensitif a meithringar sydd ei angen ar eu plant i ffynnu.<sup>13,14</sup>

✦ Mae plant sydd ag ymlyniadau cadarn yn fwy tebygol o ddangos brwdfrydedd a sylw wrth ddarllen ar y cyd, sy'n cymhell eu rhiant neu ofalwr i ddarllen gyda nhw'n amlach ac yn atgyfnerthu eu cyfle i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn.<sup>15</sup>

✦ Yr agweddau emosiynol ar ddarllen ar y cyd (e.e. cwtsio, gwenu, canu, a chwerthin) sy'n rhoi hwb i weithgareddau ymennydd plentyn sydd eu hangen i feithrin ymlyniad cadarn, nid sgiliau darllen y rhiant neu ofalwr.<sup>16</sup>



## Mae darllen yn cynorthwyo plant i ddatblygu gwell lles meddyliol, sgiliau cymdeithasol a pherthnasoedd cryf

### Mae ganddyn nhw drefn ac arferion iach

- Mae darllen ar y cyd yn chwarae rôl wrth hybu arferion amser gwely sy'n helpu i ymlacio a rhoi cysur. Mae arferion amser gwely sy'n seiliedig ar iaith, fel darllen, yn gysylltiedig â'r ffaith bod rhieni ar gael yn fwy yn emosiynol ac yn rhoi mwy o sylw.<sup>17</sup> Gall trefn arferol hybu'r amgylchedd diogel, sefydlog a rhagweladwy sydd ei angen i hwyluso datblygiad iach plant.<sup>18</sup>
- Mae darllen er pleser hefyd yn hybu trefn arferol yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae plant 11–14 oed sy'n darllen er pleser yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiadau iach.<sup>19</sup>

### Mae ganddyn nhw sgiliau cymdeithasol-emosiynol gwell

- Mae plant sy'n darllen mwy yn perfformio'n well mewn tasgau dangos sylw ac mae ganddynt lefelau is o orfywiogrwydd.<sup>20</sup>

- Mae darllen yn gysylltiedig â gwell sgiliau rhyngpersonol a chymdeithasol, gan helpu plant i ffurfio perthnasoedd ystyrlon.<sup>21</sup>

### Mae ganddyn nhw well lles meddyliol a hunan-barch

- Drwy ddarparu dihangfa a chyfle i ymlacio, gall darllen fod yn ffactor amddiffynnol yn erbyn yr adfyd y mae rhai plant yn ei wynebu.<sup>22</sup>
- Mae gan blant sy'n darllen er pleser yn rheolaidd well hunan-barch ac maen nhw'n well ar reoleiddio eu hemosiynau. Mae ganddyn nhw lefelau is o heriau emosiynol ac ymddygiadol fel gorbryder ac ymddygiad ymosodol na'r rhai sydd ddim yn darllen er pleser.<sup>23</sup>
- Mae gan blant sy'n darllen lefelau uwch o les meddyliol a hapusrwydd.<sup>24</sup>





# Mae darllen yn cynorthwyo plant



Mae ganddyn nhw well datblygiad ymennydd, sylw a gallu gwybyddol



Mae ganddyn nhw well datblygiad lleferydd ac iaith a sgiliau llythrennedd



Maen nhw'n fwy parod i fynd i'r ysgol ac mae ganddyn nhw well gwybodaeth am y byd



Maen nhw'n gwneud mwy o gynnydd ar draws y cwricwlwm

**Tystiolaeth o  
astudiaethau dethol  
ar y pwnc hwn**

**Darllen Mwy** 

**I gyrraedd cerrig  
miltir lleferydd ac  
iaith a gwneud yn  
well yn yr ysgol**




## Mae darllen yn cynorthwyo plant i gyrraedd cerrig milltir lleferydd ac iaith a gwneud yn well yn yr ysgol

### Mae ganddyn nhw well datblygiad ymennydd, sylw a gallu gwybyddol

- Mae ymennydd plentyn yn tyfu fwyaf yn eu 5 mlynedd gyntaf, pan fydd eu hymennydd yn fwyaf ymatebol i'w hamgylchedd.<sup>25</sup> Mae ysgogiad o ddarllen llyfrau, chwarae, siarad, a chanu gyda rhiant neu ofalwr yn cyflawni swyddogaeth niwrolegol bwysig, gan wella twf gwybyddol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol y plant.<sup>26</sup>
- Mae darllen ar y cyd ymhlith plant o gefndiroedd incwm isel yn gwella gweithrediad iach yr ymennydd mewn iaith, sylw, cof, hunanreolaeth ac addasu.<sup>27</sup>
- Mae gan ddarllen er pleser fanteision cadarnhaol hirhoedlog ar ddatblygiad yr ymennydd. Mae plant iau sy'n darllen mwy yn sgorio'n well ar brofion gwybyddol.<sup>28</sup>

### Maen nhw'n fwy parod i fynd i'r ysgol ac mae ganddyn nhw well gwybodaeth am y byd

- Mae gan blant sy'n dechrau darllen yn gynnar ac sy'n parhau i ddarllen drwy gydol eu plentynodod fwy o wybodaeth gyffredinol. Mae darllen yn helpu i hybu a chynnal taith ddysgu barhaus plentyn.<sup>29</sup>
- Mae darllen yn gwella cyrhaeddiad addysgol. Drwy fwydo i mewn i ddatblygiad sgiliau gwybyddol, ffurfiau o resymu, cysyniadau cymhleth a chyfoeth dychmygus, mae darllen yn cynorthwyo plant i ddatblygu eu sgiliau datrys problemau a'u galluoedd deallusol.<sup>30</sup>



## Mae darllen yn cynorthwyo plant i gyrraedd cerrig milltir lleferydd ac iaith a gwneud yn well yn yr ysgol

### Mae ganddyn nhw well datblygiad lleferydd ac iaith a sgiliau llythrennedd.

- Mae darllen ar y cyd yn rhoi cyfleoedd heb eu hail i blentyn ryngweithio ar lafar gyda'u rhiant neu ofalwr. Ymhlith y nifer o weithgareddau allweddol yn ystod plentyndod fel chwarae gyda theganau, celf a chrefft neu rannu amseroedd bwyd, mae gan ddarllen ar y cyd werth arbennig wrth greu'r cyfleoedd hyn.<sup>31</sup>
- Mae darllen ar y cyd yn rhoi cyfle i blant ddod i gyswllt â geirfa gyfoethog a newydd mewn cyd-destunau ystyrlon.<sup>32</sup>
- Mae darllen ar y cyd yn helpu plant i ddysgu geiriau. Gan fod y ffocws yn gyfan gwbl ar y stori, nid oes rhaid i'r plant ganfod geiriau newydd o'r ffrwd o weithgareddau parhaus fel y bydden nhw wrth chwarae'n rhydd.<sup>33</sup>

- Mae sawl mantais i ddarllen ar y cyd o ran canlyniadau iaith a llythrennedd plentyn yn y blynyddoedd cynnar, sydd o gymorth iddyn nhw fod yn barod i fynd i'r ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys maint geirfa, sgiliau iaith lafar, ymwybyddiaeth o brint, adnabod geiriau a sgiliau deall.<sup>34</sup>
- Mae effaith darllen ar y cyd ar lythrennedd yn unigryw. Ymhlith gweithgareddau dysgu gartref fel cymorth rhieni wrth ddarllen ac ysgrifennu, chwarae cerddoriaeth neu ddysgu'r wyddor, dim ond darllen ar y cyd sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar asesiad llythrennedd ar ddiwedd Dosbarth Derbyn.<sup>35</sup>
- Mae effaith darllen ar y cyd ar lythrennedd yn hirdymor. Mae plant sydd â rhywun yn darllen iddyn nhw'n aml yn bump oed dros hanner blwyddyn ysgol ar y blaen o ran perfformiad darllen yn 15 oed, o gymharu â rhai sydd â rhywun yn darllen iddyn nhw'n anaml neu rai sydd heb rywun yn darllen iddyn nhw o gwbl.<sup>36</sup>



## Mae darllen yn cynorthwyo plant i gyrraedd cerrig milltir lleferydd ac iaith a gwneud yn well yn yr ysgol

### Maen nhw'n gwneud mwy o gynnydd ar draws y cwricwlwm

- Mae darllen er pleser yn datgloi llwyddiant academaidd ar draws y cwricwlwm. Mae plentyn sydd â rhywun yn darllen iddyn nhw'n 1-2 oed yn sgorio'n uwch mewn sgiliau darllen, sillafu, gramadeg a rhifedd yn 8-11 oed.<sup>37</sup>
- Mae darllen er pleser yn 10 ac 16 oed yn cael effaith sylweddol ar sgorau gwybyddol plentyn mewn geirfa, sillafu, a mathemateg yn 16 oed.<sup>38</sup>



# Mae darllen yn cynorthwyo plant



Mae ganddyn nhw  
fwy o empathi



Maen nhw'n  
fwy creadigol  
a dychmygus



**Tystiolaeth o  
astudiaethau dethol  
ar y pwnc hwn**

**Darllen Mwy** >

**I ddatblygu  
dychymyg,  
empathi a  
chreadigrwydd**



## Mae darllen yn cynorthwyo plant i ddatblygu dychymyg, empathi a chreadigrwydd

### Mae ganddyn nhw fwy o empathi

- Mae empathi yn cyfeirio at y gallu i werthfawrogi, teimlo, deall a pharchu profiadau pobl eraill. Mae darllen ar y cyd yn meithrin galluoedd theori meddwl a sgiliau empathig.<sup>39</sup>
- Gall storiâu gynnig 'drych' realistig a dyls i blant ar eu bywydau a'u profiadau eu hunain a 'ffenestr' i weld profiadau pobl eraill.<sup>40</sup> Pan fydd plant yn ymwneud â stori mewn modd emosiynol, fe fyddan nhw'n teimlo bod ganddyn nhw gyswilt â'r profiad dynol ehangach ac yn gweld eu bywydau fel rhan ohono.<sup>41</sup> Gall hyn fod yn drawsnewidiol o ran datblygu eu hempatï.<sup>42</sup>
- Mae gan blant sy'n darllen llyfrau sy'n cynnig cyfleoedd i uniaethu â'r cymeriadau lefelau uwch o empathi, yn enwedig tuag at grwpiau sydd wedi'u stigmatiddio.<sup>43</sup>

### Maen nhw'n fwy creadigol a dychmygus

- Mae ymwneud â storiâu yn meithrin y meddylfryd a'r sgiliau sy'n sylfaenol i greadigrwydd plentyn drwy gydol eu plentyndod. Mae storiâu sydd ag elfennau dychmygus a hudolus yn galluogi meddyliau plant i godi uwchlaw eu cyd-destun uniongyrchol, gan eu rhyddhau o ffordd sefydlog o feddwl.<sup>44</sup>
- Drwy ffurfio ac ailffurfio eu disgwyladau o'r hyn a allai ddigwydd mewn stori yn gyson, mae darllenwyr ifanc yn ymarfer hyblygrwydd meddyliol, bod yn agored i sefyllfaoedd a dehongliadau newydd, a datrys problemau.<sup>45</sup>
- Gall stori hefyd ysgogi dramateiddio, gan ganiatáu i blant ddefnyddio eu dychymyg i wneud y stori'n weledol, i'w mynegi mewn geiriau, neu i'w hactio.<sup>46</sup>
- Mae plant sydd â rhywun yn darllen iddyn nhw'n dair oed yn gwneud mwy o gynnydd mewn datblygiad creadigol ar ddiwedd Dosbarth Derbyn na'r rhai nad oes â rhywun yn darllen iddyn nhw.<sup>47</sup>



## Nodiadau a chyfeiriadau

Rydym wedi defnyddio cannoedd o astudiaethau a adolygydd gan gymheiriaid, ac mae detholiad ohonyn nhw wedi'u cynnwys yn y rhestr gyfeirio. Mae'n werth nodi y gall y math o dystiolaeth sy'n sail i bob mantais fod yn wahanol. Yn gryno:

• Mae'r dystiolaeth bod darllen yn cynorthwyo plant i oresgyn anfantais yn seiliedig yn bennaf ar astudiaethau meintiol trawstoriadol a hydredol.

• Mae'r dystiolaeth bod darllen yn cynorthwyo plant i ddatblygu gwell lles meddyliol, sgiliau cymdeithasol a pherthnasoedd diogel yn seiliedig ar ystod o fathau o astudiaethau gan gynnwys adolygiadau systematig, hap-dreialon rheoli, ac astudiaethau ansoddol a meintiol.

• Mae'r dystiolaeth bod darllen yn cynorthwyo plant i gyrraedd cerrig milltir datblygiad cynnar mewn lleferydd ac iaith a gwneud yn well yn yr ysgol yn seiliedig ar ystod o fathau o astudiaethau gan gynnwys adolygiadau systematig, hap-dreialon rheoli, ac astudiaethau ansoddol a meintiol.

• Mae'r dystiolaeth bod darllen yn cynorthwyo plant i ddatblygu dychymyg, empathi a chreadigrwydd yn seiliedig ar astudiaethau ansoddol yn bennaf ond mae hefyd yn cynnwys rhai astudiaethau hydredol a lled-arbrofol.

**1.** Krishnan, S., a Johnson, M. H. (2014). A review of behavioural and brain development in the early years: the "toolkit" for later book-related skills.

**2.** Blanden, J. (2006). 'Bucking the trend': what enables those who are disadvantaged in childhood to succeed later in life?. Corporate Document Services.

**3.** Tamis-LeMonda, C. S., Luo, R., McFadden, K. E., Bandel, E. T., a Vallotton, C. (2019). Early home learning environment predicts children's 5th grade academic skills. *Applied Developmental Science*, 23(2), 153–169.

**4.** Castro, M., Expósito-Casas, E., LópezMartín, E., Lizasoain, L., Navarro-Asencio, E., a Gaviria, J. L. (2015). Parental involvement on student academic achievement: A meta-analysis. *Educational research review*, 14, 33–46.

**5.** Sammons, P. M., Toth, K., a Sylva, K. (2015). Subject to Background: What promotes better achievement by bright but disadvantaged students?

**6.** Guthrie, J. T., Wigfield, A., a VonSecker, C. (2000). Effects of integrated instruction on motivation and strategy use in reading. *Journal of educational psychology*, 92(2), 331.

**7.** Sullivan, A., a Brown, M. (2013). Social inequalities in cognitive scores at age 16: The role of reading. *CLS Working Papers*, 2013(13/10).



**8.** Sammons, P. M., Toth, K., & Sylva, K. (2015). Subject to Background: What promotes better achievement by bright but disadvantaged students?

**9.** Groh, A. M., Fearon, R. P., BakermansKranenburg, M. J., Van IJzendoorn, M. H., Steele, R. D., & Roisman, G. I. (2014). The significance of attachment security for children's social competence with peers: A meta-analytic study. *Attachment & human development*, 16(2), 103–136.

Jarvis, P. (2020). Attachment theory, cortisol and care for the under-threes in the twentyfirst century: constructing evidence-informed policy. *Early Years*, 1–15.

**10.** O'Farrelly, C., Doyle, O., Victory, G., & Palamaro-Munsell, E. (2018). Shared reading in infancy and later development: Evidence from an early intervention. *Journal of Applied Developmental Psychology*, 54, 69–83.

Chacko, A., Fabiano, G. A., Doctoroff, G. L., & Fortson, B. (2018). Engaging fathers in effective parenting for preschool children using shared book reading: A randomized controlled trial. *Journal of Clinical Child & Adolescent Psychology*, 47(1), 79–93.

Murray, L., De Pascalis, L., Tomlinson, M., Vally, Z., Dadomo, H., MacLachlan, B., ... & Cooper, P. J. (2016). Randomized controlled trial of a book-sharing intervention in a deprived South African community: Effects on carer–infant interactions, and their relation to infant cognitive and socioemotional outcome. *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 57(12), 1370–1379.

Betawi, I. A. (2015). What effect does story time have on toddlers' social and emotional skills. *Early Child Development and Care*, 185(4), 594–600.

**11.** Hale, L., Berger, L. M., LeBourgeois, M. K., & Brooks-Gunn, J. (2011). A longitudinal study of preschoolers' language-based bedtime routines, sleep duration, and well-being. *Journal of Family Psychology*, 25(3), 423.

**12.** Canfield, C. F., Miller, E. B., Shaw, D. S., Morris, P., Alonso, A., & Mendelsohn, A. L. (2020). Beyond language: Impacts of shared reading on parenting stress and early parent–child relational health. *Developmental psychology*, 56(7), 1305.

**13.** Blair, C., & Raver, C. C. (2016). Poverty, stress, and brain development: New directions for prevention and intervention. *Academic pediatrics*, 16(3), S30–S36.

**14.** Martin, K. J., Beck, A. F., Xu, Y., Szumlas, G. A., Hutton, J. S., Crosh, C. C., & Copeland, K. A. (2022). Shared Reading and Risk of SocialEmotional Problems. *Pediatrics*, 149(1).





**15.** Karrass, J., VanDeventer, M. C., a Braungart-Rieker, J. M. (2003). Predicting shared parent-child book reading in infancy. *Journal of Family Psychology*, 17(1), 134.

Frosch, C. A., Cox, M. J., a Goldman, B. D. (2001). Infant-parent attachment and parental and child behavior during parenttoddler storybook interaction. *Merrill-Palmer Quarterly (1982-)*, 445–474.

Bus, A. G. (2001). Parent-child book reading through the lens of attachment theory. In *Literacy and motivation* (tt. 43–57). Routledge.

Bus, A. G., a van Ijzendoorn, M. H. (1997). Affective dimension of mother-infant picturebook reading. *Journal of School Psychology*, 35(1), 47–60.

Bus, A. G., a Van IJzendoorn, M. H. (1992). Patterns of attachment in frequently and infrequently reading mother—child dyads. *The Journal of genetic psychology*, 153(4), 395–403.

**16.** Perry, R. (2013). *Teaching practice for early childhood: A guide for students*. Routledge.

**17.** Jones, C. H., a Ball, H. (2014). Exploring socioeconomic differences in bedtime behaviours and sleep duration in English preschool children. *Infant and child development*, 23(5), 518–531.

Hale, L., Berger, L. M., LeBourgeois, M. K., a Brooks-Gunn, J. (2011). A longitudinal study of preschoolers' language-based bedtime routines, sleep duration, and well-being. *Journal of Family Psychology*, 25(3), 423.

Mindell, J. A., a Williamson, A. A. (2018). Benefits of a bedtime routine in young children: Sleep, development, and beyond. *Sleep medicine reviews*, 40, 93–108.

**18.** Meetoo, V., Cameron, C., Clark, A., a Jackson, S. (2020). Complex 'everyday' lives meet multiple networks: the social and educational lives of young children in foster care and their foster carers. *Adoption a Fostering*, 44(1), 37–55.

**19.** Mak, H. W. and Fancourt, D. (2020). Reading for pleasure in childhood and adolescent healthy behaviours: Longitudinal associations using the Millennium Cohort Study. *Preventive Medicine*, 130.

**20.** Rosenqvist, J., et al. (2016). Relationship of TV watching, computer use, and reading to children's neurocognitive functions. *Journal of Applied Developmental Psychology*, 46:11–21.

Froiland, J., et al. (2016). Home literacy, television viewing, fidgeting and ADHD in young children, *Educational Psychology*, 36:8, 1337–1353.

**21.** Guarisco, M. S., et al. (2017). Reading books and reading minds: differential effects of Wonder and the crossover on empathy and theory of mind. *Study a Scrutiny: Research on Young Adult Literature*, 2(2), 24–54.

Batini, F., et al. (2021). The association between reading and emotional development: A systematic review. *Journal of Education and Training Studies*, 9(1), 12–50.

**22.** NHS Digital. (2021, September 30). *Mental Health of Children and Young People in England 2021 – Wave 2 Follow up to the 2017 Survey*. [NHS Digital](#).



**23.** Mak, H. W., a Fancourt, D. (2020). Longitudinal associations between reading for pleasure and child maladjustment: Results from a propensity score matching analysis. *Social Science a Medicine*, 253, 112971.

Mak, H. W., a Fancourt, D. (2019). Longitudinal associations between ability in arts activities, behavioural difficulties and self-esteem: analyses from the 1970 British Cohort Study. *Scientific reports*, 9(1), 1–7.

Wong, T., et al. (2022). A longitudinal perspective on frequency of parent–child activities and social–emotional development, *Early Child Development and Care*, 192:3, 458–469.

**24.** Clark, C. and Teravainen-Goff, A. (2018). Mental wellbeing, reading and writing: How children and young people’s mental wellbeing is related to their reading and writing experiences. National Literacy Trust research report.

**25.** Tooley, U. A., Bassett, D. S., a Mackey, A. P. (2021). Environmental influences on the pace of brain development. *Nature Reviews Neuroscience*, 22(6), 372–384.

Miguel, P. M., Pereira, L. O., Silveira, P. P., a Meaney, M. J. (2019). Early environmental influences on the development of children’s brain structure and function. *Developmental Medicine a Child Neurology*, 61(10), 1127–1133.

Hutton, J. S., Horowitz-Kraus, T., Mendelsohn, A. L., DeWitt, T., Holland, S. K., a C-Mind Authorship Consortium. (2015). Home reading environment and brain activation in preschool children listening to stories. *Pediatrics*, 136(3), 466–478.

Huttenlocher, P. R. (2009). *Neural plasticity: The effects of environment on the development of the cerebral cortex*. Harvard University Press.

**26.** UNICEF (2021). Addressing the gaps: Key results from the multiple indicator cluster survey Thailand 2019. UNICEF Office for Thailand.

**27.** Hutton, J. S., Phelan, K., Horowitz-Kraus, T., Dudley, J., Altaye, M., DeWitt, T., a Holland, S. K. (2017). Shared reading quality and brain activation during story listening in preschoolage children. *The Journal of pediatrics*, 191, 204–211.

Hutton, J. S., Horowitz-Kraus, T., Mendelsohn, A. L., DeWitt, T., Holland, S. K., a C-Mind Authorship Consortium. (2015). Home reading environment and brain activation in preschool children listening to stories. *Pediatrics*, 136(3), 466–478.

**28.** Sun, et al (2023). Early-initiated childhood reading for pleasure: Associations with better cognitive performance, mental well-being and brain structure in young adolescence. *Psychological Medicine*, 1–15.

**29.** Neuman, S. B., a Celano, D. C. (2012). *Worlds Apart: One City, Two Libraries, and Ten Years of Watching Inequality Grow*. *American Educator*, 36(3), 13.



**30.** Ritchie, S. J., Bates, T. C., a Plomin, R. (2015). Does learning to read improve intelligence? A longitudinal multivariate analysis in identical twins from age 7 to 16. *Child development*, 86(1), 23–36.

Sullivan, A., a Brown, M. (2015). Reading for pleasure and progress in vocabulary and mathematics. *British Educational Research Journal*, 41(6), 971–991.

Evans, M. D., Kelley, J., Sikora, J., a Treiman, D. J. (2010). Family scholarly culture and educational success: Books and schooling in 27 nations. *Research in social stratification and mobility*, 28(2), 171–197.

**31.** Gilkerson, J., Richards, J. A., a Topping, K. J. (2017). The impact of book reading in the early years on parent–child language interaction. *Journal of Early Childhood Literacy*, 17(1), 92–110.

Sosa, A. V. (2016). Association of the type of toy used during play with the quantity and quality of parent–infant communication. *JAMA pediatrics*, 170(2), 132–137.

Gros-Louis, J., West, M. J., a King, A. P. (2016). The influence of interactive context on prelinguistic vocalizations and maternal responses. *Language Learning and Development*, 12(3), 280–294.

Davie, J., a Kemp, C. (2002). A comparison of the expressive language opportunities provided by shared book reading and facilitated play for young children with mild to moderate intellectual disabilities. *Educational Psychology*, 22(4), 445–460.

Munn, P., a Schaffer, H. R. (1993). Literacy and numeracy events in social interactive contexts. *International Journal of Early Years Education*, 1(3), 61–80.

Hoff-Ginsberg, E. (1991). Mother–child conversation in different social classes and communicative settings. *Child development*, 62(4), 782–796.

Sorsby, A. J., a Martlew, M. (1991). Representational demands in mothers' talk to preschool children in two contexts: Picture book reading and a modelling task. *Journal of child language*, 18(2), 373–395.

**32.** Hagen, Å. M. (2018). Improving the odds: Identifying language activities that support the language development of preschoolers with poorer vocabulary skills. *Scandinavian journal of educational research*, 62(5), 649–663.

**33.** Fletcher, K. L., a Reese, E. (2005). Picture book reading with young children: A conceptual framework. *Developmental review*, 25(1), 64–103.



**34.** Leech, K. A., McNally, S., Daly, M., a Corriveau, K. H. (2022). Unique effects of book-reading at 9-months on vocabulary development at 36-months: Insights from a nationally representative sample of Irish families. *Early Childhood Research Quarterly*, 58, 242–253.

Suggate, S. P., Lenhart, J., Vaahtoranta, E., a Lenhard, W. (2021). Interactive elaborative storytelling fosters vocabulary in pre-schoolers compared to repeated-reading and phonemic awareness interventions. *Cognitive Development*, 57, 100996.

Niklas, F., Wirth, A., Guffler, S., Drescher, N., a Ehmig, S. C. (2020). The home literacy environment as a mediator between parental attitudes toward shared reading and children's linguistic competencies. *Frontiers in Psychology*, 11, 1628.

Silinskas, G., Sénéchal, M., Torppa, M., a Lerkkanen, M. K. (2020). Home literacy activities and children's reading skills, independent reading, and interest in literacy activities from kindergarten to grade 2. *Frontiers in psychology*, 11, 1508.

Zivan, M., a Horowitz-Kraus, T. (2020). Parent-child joint reading is related to an increased fixation time on print during storytelling among preschool children. *Brain and Cognition*, 143, 105596.

Dowdall, N., Melendez-Torres, G. J., Murray, L., Gardner, F., Hartford, L., a Cooper, P. J. (2020). Shared picture book reading interventions for child language development: A systematic review and meta-analysis. *Child development*, 91(2), e383–e399.

Boyle, S. A., McNaughton, D., a Chapin, S. E. (2019). Effects of shared reading on the early language and literacy skills of children with autism spectrum disorders: A systematic review. *Focus on Autism and Other Developmental Disabilities*, 34(4), 205–214.

Brown, M. I., Westerveld, M. F., Trembath, D., a Gillon, G. T. (2018). Promoting language and social communication development in babies through an early storybook reading intervention. *International journal of speechlanguage pathology*, 20(3), 337–349.

Brown, L. T., Mohr, K. A., Wilcox, B. R., a Barrett, T. S. (2018). The effects of dyad reading and text difficulty on third-graders' reading achievement. *The Journal of Educational Research*, 111(5), 541–553.

Farrant, B. M., a Zubrick, S. R. (2013). Parent-child book reading across early childhood and child vocabulary in the early school years: Findings from the Longitudinal Study of Australian Children. *First Language*, 33(3), 280–293.

Mol, S. E., a Bus, A. G. (2011). To read or not to read: a meta-analysis of print exposure from infancy to early adulthood. *Psychological bulletin*, 137(2), 267.



Kloosterman, R., Notten, N., Tolsma, J., a Kraaykamp, G. (2011). The effects of parental reading socialization and early school involvement on children's academic performance: A panel study of primary school pupils in the Netherlands. *European Sociological Review*, 27(3), 291–306.

Hood, M., Conlon, E., ac Andrews, G. (2008). Preschool home literacy practices and children's literacy development: A longitudinal analysis. *Journal of Educational Psychology*, 100(2), 252.

Bracken, S. S., a Fischel, J. E. (2008). Family reading behavior and early literacy skills in preschool children from low-income backgrounds. *Early Education and Development*, 19(1), 45–67.

Weisleder, A., Cates, C. B., Harding, J. F., Johnson, S. B., Canfield, C. F., Seery, A. M. a Mendelsohn, A. L. (2019). Links between shared reading and play, parent psychosocial functioning, and child behavior: evidence from a randomized controlled trial. *The Journal of pediatrics*, 213, 187–195.

**35.** Hartas, D. (2011). Families' social backgrounds matter: Socio-economic factors, home learning and young children's language, literacy and social outcomes. *British Educational Research Journal*, 37(6), 893–914.

**36.** OECD. (2011). *What Can Parents Do to Help Their Children Succeed in School?*

**37.** Brown, M. I., Wang, C., a McLeod, S. (2022). Reading with 1–2 year olds impacts academic achievement at 8–11 years. *Early Childhood Research Quarterly*, 58, 198–207.

**38.** Sullivan, A. and Brown, M. (2013) *Social inequalities in cognitive scores at age 16: The role of reading.* CLS Working Paper 2013/10. London: Centre for Longitudinal Studies.

**39.** Batini, F., et al. (2021). The association between reading and emotional development: A systematic review. *Journal of Education and Training Studies*, 9(1), 12–50.

**40.** Bishop, R. S. (1990, March). Windows and mirrors: Children's books and parallel cultures. In California State University reading conference: 14th annual conference proceedings (tt. 3–12).

**41.** Bal, P. M., a Veltkamp, M. (2013). How does fiction reading influence empathy? An experimental investigation on the role of emotional transportation. *PloS one*, 8(1), e55341.



**42.** Gonçalves, L. L., Voos, M. C., Almeida, M. H. M. D., a Caromano, F. A. (2017). Massage and storytelling reduce aggression and improve academic performance in children attending elementary school. *Occupational therapy international*, 2017.

Shechtman, Z. (2017). Group intervention with aggressive children and youth through bibliotherapy. *International Journal of Group Psychotherapy*, 67(1), 47–67.

Altmann, U., Bohrn, I. C., Lubrich, O., Menninghaus, W., a Jacobs, A. M. (2012). The power of emotional valence—from cognitive to affective processes in reading. *Frontiers in human neuroscience*, 6, 192.

**43.** Guarisco, 2017; Vezzali et al., 2015  
Guarisco, M. S., Brooks, C., a Freeman, L. M. (2017). Reading books and reading minds: differential effects of Wonder and the crossover on empathy and theory of mind. *Study a Scrutiny: Research on Young Adult Literature*, 2(2), 24–54.

Vezzali, L., Stathi, S., Giovannini, D., Capozza, D., a Trifiletti, E. (2015). The greatest magic of Harry Potter: Reducing prejudice. *Journal of Applied Social Psychology*, 45(2), 105–121.

**44.** Nyhout, A., a O’Neill, D. K. (2013). Mothers’ complex talk when sharing books with their toddlers: Book genre matters. *First Language*, 33(2), 115–131.

Pellegrini, A. D., a Galda, L. (1991). Longitudinal relations among preschoolers’ symbolic play, metalinguistic verbs, and emergent literacy. *Play and early literacy development*, 47–67.

Cho, B. K., a Kim, J. (1999). The Improvement of Children’s Creativity: Through Korean Picture Books. *Childhood Education*, 75(6), 337–341.

**45.** Sturm, B. (2013). Bibliocreativity: How books and stories develop creativity. *The Creative Imperative: School Librarians and Teachers Cultivating Curiosity Together: School Librarians and Teachers Cultivating Curiosity Together*, 203.

**46.** Mourão, S. J. (2016). Picturebooks in the primary EFL classroom. *Children’s Literature in language Education journal (CLELEjournal)*, 4(1), 25–43.

Serrurier-Zucker, C., a Gobbé-Mévellec, E. (2014). Article 2–The Page IS The Stage: From Picturebooks to Drama with Young Learners.

Tolentino, E. P. (2007). “Why do you like this page so much?” Exploring the Potential of Talk during Preschool Reading Activities. *Language Arts*, 84(6), 519–528.

**47.** Hansen, K., a Joshi, H. (2008). Millennium Cohort Study Third Survey: a user’s guide to initial findings. Centre for Longitudinal Studies, Institute of Education, University of London.



Yn BookTrust, ein cenhadaeth yw cael pob plentyn i ddarllen yn rheolaidd a thrwy ddewis ac rydym yn rhoi cymorth ychwanegol i'r plant mwyaf anghenus. Os hoffech wybod mwy am ein gwaith a sut rydym yn cynorthwyo plant a theuluoedd i ddatblygu eu harferion darllen, cysylltwch â ni.

**booktrust.org.uk**

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol: @BookTrust

Rhif elusen: 313343

**BookTrust, No. 1 Aire Street, Leeds, LS1 4PR**

 **020 7801 8800**

 **queries@booktrust.org.uk**



Supported using public funding by  
**ARTS COUNCIL  
ENGLAND**